

Taith 6:

Taith yrru i Ddyffryn Dysynni

Dolgellau – Abergynolwyn – Tywyn **Cyfnod: UN DIWRNOD**

Cymerwch ddiwrnod i fwynhau awyrgylch heddychlon Abaty hyfryd Cymer lle arferai'r mynachod Sistersaidd ffermio'r tiroedd o'i amgylch. Symudwch ymlaen i archwilio adfeilion rhamantus Castell y Bere, ar grimog greigiog islaw llethrau Cader Idris. Cafodd y castell ei adeiladu gan Llywelyn ap Iorwerth ar ôl iddo gymryd rheolaeth o'r ardal hon yn ôl oddi ar ei fab. Efallai y byddwch yn dymuno ymweld ag Eglwys hynafol Sant Cadfan yn Nhywyn hefyd, lle mae carreg arysgrifedig o'r 7fed neu'r 8fed ganrif yn cynnwys y Gymraeg ysgrifenedig gynharaf y gwyddwn amdani.

TEITHIO: Gan ddechrau o Ddolgellau, ewch yn y car i Abaty Cymer i ymweld â'r abaty. Mae'r safle, dan warchodaeth Cadw gydag arwyddion i'ch cyfeirio ato, yn sefyll 2 filltir i gyfeiriad y gogledd o Ddolgellau ar is-ffordd oddi ar yr A470. O'r fan hon, gyrrwch i lawr yr arfordir i Gastell y Bere, 2 filltir i'r gogledd-ddwyrain o'r B4405 yn Abergynolwyn.

